**EITEM AR YR AGENDA: 10**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**19 Mawrth 2012**

**ALLDRO AMCANOL 2011-2012**

**Adroddiad gan Ken Finch, Trysorydd**

## Diben yr Adroddiad

1 Diben yr adroddiad hwn yw darparu i'r Aelodau yr alldro amcanion amcangyfrifiedig am flwyddyn ariannol 2011-2012.

## Cyflwyniad

2 Mae Gwariant o'i gymharu â'r gyllideb yn cael ei fonitro'n agos gan staff y Gwasanaeth Tân ac Achub, a thynnir sylw at unrhyw amrywiannau neu amrywiannau disgwyliedig cyn gynted ag y bônt yn digwydd, a hynny er mwyn gallu gosod mesurau yn eu lle i sicrhau nad oes unrhyw risg ariannol i'r Awdurdod. Yr arwyddion cyfredol yw y bydd £634,731 o danwariant. Mae'r dadansoddiad manwl yn Atodiad A, a dangosir unrhyw danwariannau gydag arwydd minws (-).

3 Mae'r tanwariant wedi ei reoli'n ofalus er mwyn sicrhau bod digon o arian i ymorol am y costau pontio tymor byr fel rhan o gyflwyno'r system gylchrestr yn 2012-13. Mae'r costau staffio wedi eu lleihau lle bo modd yn 2011-12 wrth baratoi ar gyfer cyrraedd y targedau arbedion a osodwyd ar gyfer cyllideb 2012-13 fel y cytunwyd gan yr aelodau ym mis Rhagfyr. Cytunwyd hefyd gan yr Aelodau fod £68,000 o unrhyw danwariant i gael ei ddefnyddio i dalu treth stamp a ffioedd ar gyfer y cynnig i brynu'r Pencadlys. Felly, argymhellir bod yr Aelodau'n nodi'r tanwariant.

## Amrywiannau i'r Gyllideb

### Costau Gweithwyr

4 Mae cyfran fawr o wariant y Gwasanaeth Tân ac Achub yn ymwneud â chyflogau, ac mae arwyddion y bydd tanwariant net ar gyflogau eleni.

5 O fewn y gyllideb ar gyfer Diffoddwyr Tân– Amser Cyflawn, mae targed o £450k o arbedion y cytunwyd arno gan yr Aelodau yn ystod y broses o osod y gyllideb. Mae'r alldro amcangyfrifiedig yn cadarnhau y bydd arbediad yn cael ei gyrraedd, ac y bydd arbedion ychwanegol yn uwch a thu hwnt i'r targed gwreiddiol. Gwneir hyn trwy ymddeoliadau y mae'n hysbys y byddant yn digwydd yn ystod y flwyddyn, ynghyd â pheidio â recriwtio i'r ochr amser cyflawn a'r ffaith fod y goramser yn llai na'r hyn y cyllidebwyd ar ei gyfer.

6 Gellir priodoli'r tanwariant ar Staff Cefnogol i'r ffaith fod nifer y gweithlu y cyllidebwyd ar ei chyfer yn fwy nag union nifer y gweithwyr; mae hyn oherwydd ailstrwythuro gan arwain at swyddi gwag sydd heb eu llenwi ar hyn o bryd, ynghyd â'r angen i wneud arbedion mewn blynyddoedd i ddod a fydd yn arwain at ddileu nifer o'r swyddi gwag hyn.

7 Mae'r tanwariant amcangyfrifiedig ar ddiffoddwyr tân y system dyletswydd yn ôl y galw yn eithaf bychan, sef £163k. Mae hyn oherwydd gostyngiad yn y ffioedd digwyddiadau dros y deufis diwethaf, a gostyngiad yn nifer diffoddwyr tân a gyflogir gan yr Awdurdod ar y system honno.

8 Mae'r tanwariant ar y pennawd Amrywiol yn y gyllideb oherwydd taliadau am ddileu swyddi a ddaw yn y flwyddyn ac sydd heb fod yn y gyllideb; rhoddir y costau yn erbyn arbedion a geir yn y dyfodol oherwydd gostyngiad yn swyddi staff cefnogol.

9 Y costau sydd dan Bensiynau Diffoddwyr Tân yw costau pensiynau na ellir eu codi ar y Gronfa Bensiynau, ac maent yn cynnwys: taliadau pensiwn oherwydd anafiadau; pensiynau ar sail afiechyd ar yr ochr dyletswydd yn ôl y glaw; a thaliadau lwmp-swm oherwydd anafiadau ar yr ochr dyletswydd yn ôl y galw. Mae rhan o'r tanwariant amcangyfrifiedig yn bod oherwydd £75k fel taliad

lwmp-swm mawr am anafiadau. Gellir rheoli'r gorwariant ychwanegol o fewn y gyllideb gyfredol os mai fel yr alldro y bydd y sefyllfa, ond petai amgylchiadau'n newid, gellid cwrdd â'r gorwariant o gronfa wrth gefn pensiynau.

**Cludiant**

10 Yn gyffredinol, amcangyfrifir y bydd £48k o orwariant yn y gyllideb Cludiant. Mae hyn oherwydd cynnydd yng nghostau tanwydd ac yswiriant cerbydau o'u cymharu â'r adeg pryd y gosodwyd y gyllideb wreiddiol yn Rhagfyr 2010, gan arwain at gyllideb annigonol i ymorol am y gwir wariant.

**Cyflenwadau**

11 Dan y pennawd Cyflenwadau a Gwasanaethau, amcangyfrifir y bydd tanwariant ar gostau Cyfathrebu oherwydd oedi wrth roi'r gwaith datblygu ar waith, ac mae hyn wedi arwain at arbediad yng nghostau rhentu llinellau ffôn yn y flwyddyn gyfredol.

12 Mae'r gorwariant ar Gostau Cyfrifiadurol oherwydd cael system yn lle Unix, ac mae'n cynnwys costau'r caledwedd newydd. Penderfynwyd diweddaru'r system er mwyn cael arbedion tymor hir; bydd angen llai o waith cynnal a chadw ar y system newydd, ynghyd â llai o fewnbynnau llafurddwys, gan gael arbedion o ran costau staff.

13 Mae'r gwariant ar Argraffu a Deunydd Ysgrifennu yn llai oherwydd newidiadau mewn arferion gweithio, ynghyd â bod yn fwy craff wrth gaffael. Mae costau Diogelwch Tân hefyd yn llai oherwydd bod llai o waith atgyweirio hydrantau, a hynny oherwydd gordaliad yn y flwyddyn flaenorol.

14 Mae treuliau Cynadleddau a Chynhaliaeth yn llai oherwydd y mesurau rheoli a roddwyd mewn lle er mwyn cael llai o wariant yn hyn o beth.

**Asiantaeth**

15 Dan Asiantaeth, mae'r gost o lanhau adeiladau a chynnal a chadw tiroedd wedi codi oherwydd newid ym manyleb cytundebau glanhau a chynnal a chadw.

### Gwasanaethau Cynnal

16 Bydd y gorwariant amcangyfrifiedig ar Reoli Ystadau yn cael ei roi yn erbyn cynnydd yn yr incwm o ffioedd cyfalaf a ddangosir yn yr adran incwm ar dudalen olaf yr atodiad.

### Ariannu Cyfalaf

17 Amcangyfrifir bod y costau dyled sy'n gysylltiedig â'r rhaglen gyfalaf yn llai na'r gyllideb wreiddiol oherwydd bod cyfraddau llog isel yn beth cyffredin, a bod hynny'n gwneud cost benthyca'n llai na'r hyn a amcangyfrifwyd o'r blaen.

### Incwm

18 Mae'r incwm am Alwadau Gwasanaeth Arbennig yn llai na'r gyllideb oherwydd gostyngiad yn nifer y digwyddiadau y mae'r Awdurdod yn anfonebu amdanynt. Hefyd, bu gostyngiad yn yr incwm a enillwyd trwy gyrsiau hyfforddi allanol, oherwydd penderfynwyd mai defnydd mwy effeithiol o'r adnoddau fyddai darparu cynghorion diogelwch tân. Mae Cynllunio rhag Argyfyngau yn dangos gostyngiad yn yr incwm yn y gyllideb refeniw gan fod y cyllid gan Lywodraeth Cymru wedi ei ailddyrannu i'r prosiect Dimensiynau Newydd sy'n cael ei reoli trwy gyfrif daliannol fel nad yw'n cael ei ddangos yn y gyllideb refeniw.

19 Mae incwm gwerthiant wedi codi oherwydd gwerthu nifer o gerbydau a ddatgomisiynwyd.

## Argymhelliad

20 Bod yr Aelodau'n nodi'r tanwariant amcangyfrifiedig.